# Thema: Ailgylchu a Gwastraff Bwyd

## Cefndir

Bu'r plant y dysgu am Leihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu, a sut mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr hinsawdd. Bu'r disgyblion yn edrych ar gysyniad lleihau gwastraff, sy'n golygu defnyddio llai o adnoddau, lleihau prynu diangen a meddwl am effaith hirdymor eu dewisiadau. Rhoddwyd deunydd ailgylchadwy glân i'r plant, fel bocsys, poteli a jariau a gofynnwyd iddynt eu hailddefnyddio i greu rhywbeth newydd. Yna cafodd unrhyw beth a oedd yn weddill ei ddidoli i'r biniau ailgylchu cywir.

Bu'r plant yn edrych ar Leihau Gwastraff Bwyd: sut mae gwastraff bwyd yn chwarae rhan mewn newid hinsawdd, enghreifftiau o 'wastraff bwyd na ellir ei fwyta' a sut mae'r bwydydd hyn yn cael eu defnyddio i greu ynni adnewyddadwy.

## *Dolenni ac Adnoddau*

Bu eich plentyn yn dysgu sut gall camau bach bob dydd helpu i ddiogelu'r blaned a sut gall pawb yn y teulu gyfrannu at leihau gwastraff, ailgylchu a deall effaith cael gwared ar wastraff mewn modd amhriodol ar yr amgylchedd lleol. Dyma dasg syml i atgyfnerthu'r syniadau hyn:

Edrychwch ar ddeunydd ailgylchu eich aelwyd yn y gegin, yr ystafell ymolchi a'r ardaloedd byw. Chwiliwch am becynnau y mae modd eu hailgylchu a gwiriwch am symbolau ailgylchu. Os nad ydych chi'n siŵr, gwnewch ymchwil gyda'ch gilydd gan ddefnyddio'r canllaw defnyddiol hwn: [https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/What-to-put-in-your-bin.aspx](https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/What-to-put-in-your-bin.aspx)

Anogwch eich plentyn i feddwl yn greadigol am ailddefnyddio eitemau - a ellir ailddefnyddio hen gynhwysydd, neu a ellir troi darnau o bapur yn waith celf? Mae newidiadau bach yn gwneud gwahaniaeth ac yn helpu i leihau gwastraff. Trefnwch 'archwiliad gwastraff' difyr i'r teulu. Edrychwch ar yr hyn rydych chi'n ei daflu a nodwch eitemau y mae modd eu hailgylchu a gafodd eu methu. A ellir trwsio eitem sydd wedi torri? Trafodwch ffyrdd o leihau gwastraff yn y dyfodol.

Dywedwch "Na i'r bin, ia i ailddefnyddio!" I weld lle gallwch chi fynd ag eitemau diangen: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/No-to-the-bin-yes-to-reuse.aspx

Bydd eich plentyn yn rhannu'r canfyddiadau hyn gyda'u dosbarth, gan drafod sut gallan nhw leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu gartref ac yn yr ysgol. Byddan nhw hefyd yn myfyrio ar sut i wella ymdrechion ailgylchu yn yr ystafell ddosbarth, fel trwy edrych ar wastraff a gaiff ei greu yn ystod amser cinio neu weithgareddau eraill.

Beth am gael trafodaeth gyda'r teulu am leihau gwastraff o becynnau neu newid i ddefnyddio dewisiadau y mae modd eu hailgylchu? Eglurwch sut y gall darn bach o sbwriel wrth y draen hyd yn oed gyrraedd y môr yn y pen draw, gan effeithio ar yr amgylchedd a'r lleoedd rydym ni'n eu mwynhau, fel y traeth neu ddyfrffyrdd lleol.

Beth am adael i'ch plant roi cynnig ar gasglu sbwriel? Byddwn nhw wrth eu boddau, ac mae'n ffordd wych iddynt fynd ati i helpu i dacluso eu cymuned leol. Gall oedolion ymuno hefyd - mae'n weithgaredd difyr i'w wneud gyda'r teulu.

Gallwch ddefnyddio canolbwyntiau casglu sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus, dewch o hyd i'ch un agosaf chi yma: https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/hybiau-codi-sbwriel/

Neu gallwch ofyn am offer casglu sbwriel trwy anfon e-bost at cadwchsiryfflintyndaclus@siryfflint.gov.uk

Os fyddwch chi'n mwynhau, gallwch chi fod yn Arwr Sbwriel gyda Cadwch Gymru'n Daclus trwy fynd i https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/arwyr-sbwriel/ neu ymuno ag un o'r grwpiau casglu sbwriel lleol ar Facebook i gymryd rhan:

Casglwyr Sbwriel Sir y Fflint https://www.facebook.com/groups/482410796461661 .

Casglwyr Sbwriel y Fflint https://www.facebook.com/groups/flintlitterpickers

Casglwyr Sbwriel Glannau Dyfrdwy https://www.facebook.com/groups/229609572164437/

**Gwastraff Bwyd**

**Ailgylchu Gwastraff Bwyd**

Yn Sir y Fflint, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo arferion rheoli gwastraff cynaliadwy, a rhan hanfodol o hyn yw casglu ac ailgylchu gwastraff bwyd.

Mae'r dudalen hon yn darparu gwybodaeth werthfawr i breswylwyr Sir y Fflint allu cymryd rhan yn y gwasanaeth casglu gwastraff bwyd, gwybod beth ellir ac na ellir ei gynnwys, a'r manteision i'n cymuned a'r amgylchedd.

**Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff**

Os ydych eisiau lleihau gwastraff bwyd, eisiau mwy o wybodaeth a chyngor ar sut i arbed bwyd, arbed arian ac achub ein planed, ewch i: Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff.

**Rhywbeth i feddwl amdano - Dewisiadau eraill**

Os oes gennych chi fwyd dros ben neu fwyd nad yw'n addas i'w roi i fanciau bwyd, ystyriwch ei gompostio i'w ddefnyddio yn eich gardd fel cyflyrydd pridd. I ddysgu mwy, darllenwch ein canllaw defnyddiol: Canllaw hawdd i wneud Compost Gartref

.